Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Strategaeth Cyffuriau mewn Carchardai

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Strategaeth Cyffuriau mewn Carchardai

## Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | **Error! Bookmark not defined.** |
| Cyflwyno'r strategaeth hon | 5 |
| Cyfyngu ar Gyflenwad | 8 |
| Lleihau'r Galw | 14 |
| Adeiladu Adferiad | 18 |
| Casgliadau a chamau nesaf | 26 |

## Cyflwyniad

Mae camddefnyddio cyffuriau yn y carchar yn un o'r sialensiau mwyaf sy'n wynebu ein system cyfiawnder troseddol heddiw. Mae camddefnyddio cyffuriau yn gyffredin ac yn cyfrannu at drais, trosedd a bod yn agored i newid mewn carchardai, sy'n bygwth diogelwch a gallu staff gweithgar ein carchardai i ddarparu cyfundrefnau effeithiol. Ni allwn wella diogelwch, atal aildroseddu a mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol heb leihau camddefnyddio cyffuriau mewn carchardai. Mae hon yn broblem gymhleth, amlochrog heb ateb syml - mae angen ymdrech gydlynol i gyfyngu ar gyflenwad cyffuriau y tu fewn a thu allan i garchardai, annog pobl i symud oddi wrth gamddefnyddio cyffuriau tuag at weithgareddau positif a chynhyrchiol, a chefnogi'r rheini sydd angen triniaeth. Mae'n hanfodol felly bod ein dull o fynd i'r afael â'r broblem yn ystyried y system gyfan, drwy weithio ar draws y llywodraeth a gyda'n partneriaid ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae maint y broblem yn sylweddol ac wedi dod yn fwy heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2012/13 a 2017/18, cafwyd cynnydd o 50% yng nghyfradd yr hapbrofion positif am gyffuriau 'traddodiadol'[1] mewn carchardai, o 7% i 10.6%, ac mae'r defnydd o gyffuriau mewn carchardai bellach yn gyffredin iawn, yn enwedig ymhlith dynion mewn carchardai lleol a chategori C. Mae dyfodiad sylweddau seicoweithredol fel cannabinoids synthetig wedi gwaethygu'r broblem, ac maent yn aml yn cael eu defnyddio gyda chyffuriau eraill, wrth barhau i fod yn ymwybodol o broblemau wrth ddargyfeirio a chamddefnyddio meddyginiaeth presgripsiwn. Mae amlygrwydd a phatrymau camddefnyddio cyffuriau mewn carchardai yn cael eu llywio gan batrymau yn y gymuned, a gall y sialensiau sy'n wynebu carchardai waethygu pan fydd gan y rhai sy'n mynd i'r carchar broblem camddefnyddio cyffuriau yn barod neu pan fydd camddefnyddio cyffuriau wedi'i normaleiddio yn y gymuned.


Mae tystiolaeth yn dangos i ni mai'r carchardai sydd â'r cyfraddau uchaf o hapbrofion cyffuriau positif yw'r carchardai sydd lleiaf sefydlog [2]. Mae camddefnyddio cyffuriau yn cyfrannu at gylch o aflonyddwch a thrais, sy'n arwain at gyfundrefn lai neu ansefydlog, sy'n gallu annog carcharorion i droi at gyffuriau ac alcohol oherwydd diffyg pwrpas a natur anrhagweladwy. Mae'r ddyled sy'n deillio o gyflenwi, dosbarthu a defnyddio cyffuriau hefyd yn achos arwyddocaol o drais, bygwth a hunan-niweidio ar draws yr ystâd, gan beryglu staff a charcharorion eraill. O ganlyniad, i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau, mae angen newidiadau arnom ym mhob elfen o'r cylch hwn, gan alluogi carcharorion i ymgysylltu'n bositif â'r broses adsefydlu, mewn amgylchedd tawel a diogel. Mae lleihau camddefnyddio cyffuriau yn hanfodol i ddiogelwch ein carchardai a'r broses o adsefydlu carcharorion.

---

[1] Rhennir cyfraddau profion cyffuriau positif rhwng cyffuriau **'traddodiadol' -** sylweddau dan reolaeth a ddiffinnir yn Neddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, fel opiadau a chanabis - a **'sylweddau seicoweithredol'** - sylweddau a ddiffinnir yn wreiddiol yn Neddf Sylweddau Seicoweithredol 2016, fel cannabinoids synthetig, ond mae llawer ohonynt bellach wedi'u rheoli gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

[2] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, (2016), Papur Gwyn Diogelwch Diwygio Carchardai https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/565014/cm-9350-prison-safety-and-reform-_web_.pdf, p. 41.

Datblygwyd y strategaeth hon gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, gan weithio gyda phartneriaid eraill ar draws y llywodraeth. Mae'n nodi ein cynlluniau i leihau camddefnyddio cyffuriau yn ein carchardai, a bydd yn darparu cyfeiriad i gynorthwyo'r holl randdeiliaid. Rydym hefyd yn rhyddhau canllawiau manwl i garchardai i'w cefnogi i adnabod problemau ac i rannu arfer gorau. Gyda'n gilydd, byddwn yn canolbwyntio ar gyfyngu ar gyflenwad cyffuriau drwy wella diogelwch, adeiladu cudd-wybodaeth, a thargedu'r rhwydweithiau troseddol sy'n ceisio dod â chyffuriau i'r carchar. Byddwn hefyd yn lleihau'r galw am gyffuriau yn y carchar drwy ddatblygu cyfundrefnau mwy ystyrlon, gan gynnig ffyrdd mwy adeiladol i garcharorion dreulio eu hamser a sicrhau bod cydbwysedd cymhellion yn annog carcharorion i wneud y dewisiadau cywir. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid iechyd a chyfiawnder i adeiladu’r broses adfer i garcharorion sydd am oresgyn eu problemau camddefnyddio sylweddau, gan ddarparu'r amgylchedd i garcharorion sydd o ddifrif ynglŷn â byw yn rhydd o sylweddau i wneud hynny'n llwyddiannus. Mae'n hanfodol ein bod yn cyflwyno pob un o dair elfen y strategaeth hon ar y cyd i wneud gwahaniaeth ystyrlon a phositif i garcharorion a staff.



# Cyflwyno’r strategaeth hon

## Ein nod

Datblygwyd y strategaeth hon i gefnogi ac ategu Strategaeth Gyffuriau Llywodraeth EM a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2017[3] ac mae'n canolbwyntio ar yr un tri amcan o gyfyngu ar gyflenwad, lleihau’r galw ac adeiladu adferiad. Ein nod cyffredinol yw lleihau camddefnyddio cyffuriau yn ein carchardai, a fydd yn cynyddu diogelwch staff a charcharorion, ac yn cyfrannu at sicrhau bod carchardai yn llefydd sy’n cynnig cyfle a newid i garcharorion. Ein blaenoriaethau yw lleihau gweithgareddau sy'n achosi niwed difrifol, galluogi carcharorion i fyw bywydau o fewn y gyfraith, a'u cefnogi i oresgyn caethiwed. Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac felly bydd pob carchar wedi gweithredu eu Strategaeth Gyffuriau eu hunain, wedi'i theilwra i'w hanghenion a'u sialensiau penodol, erbyn mis Medi 2019.

## Ein ffordd o weithio

Er mwyn mynd i'r afael â phroblem camddefnyddio cyffuriau mewn carchardai, mae angen i ni atal cyffuriau rhag bod ar gael mewn carchardai (cyfyngu ar gyflenwad), cefnogi carcharorion i leihau ac osgoi camddefnyddio cyffuriau (lleihau'r galw), a darparu'r cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hadferiad (adeiladu adferiad). Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, rydym yn canolbwyntio ar bum maes sy'n effeithio ar lefelau camddefnyddio cyffuriau mewn carchardai.

**Pobl** – bod gan garchardai y staff iawn, gyda sgiliau a chymorth priodol

**Gweithdrefnau** – bod prosesau carchardai yn glir, yn deg ac yn effeithiol

**Ffisegol** – bod amodau’r carchar yn ddiogel, yn lân, yn weddus ac yn hyrwyddo llesiant ac adferiad

**Poblogaeth** – bod gan garcharorion berthnasoedd positif ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol

**Partneriaeth** – bod yr holl sefydliadau sy'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion yn cydweithio'n effeithiol

Ar gyfer pob un o'r tri amcan, rydym wedi nodi gweithgareddau allweddol ym mhob un o'r pum maes hyn yn ogystal â nodau y gallwn fesur ein cynnydd yn eu herbyn. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau canolog, fel datblygu cudd-wybodaeth, a mentrau lleol, fel gweithio'n dda gyda darparwyr triniaeth yn y gymuned.

---

[3] Y Swyddfa Gartref, (2017), Strategaeth Gyffuriau 2017, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/628148/Drug_strategy_2017.PDF

Ochr yn ochr â'r strategaeth hon, rydym wedi datblygu catalog o arferion da a chanllawiau i lywodraethwyr a staff carchardai eu hystyried wrth reoli'r broses o redeg carchar o ddydd i ddydd i leihau camddefnyddio cyffuriau. Byddwn yn parhau i weithio gyda charchardai i rannu a gweithredu newidiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus ac i ddiweddaru'r canllawiau. Bydd hyn yn cefnogi carchardai i ddatblygu eu strategaethau cyffuriau lleol ar y cyd â gweithgarwch arall, gan gynnwys strategaethau diogelwch lleol. Byddwn yn arwain ac yn cefnogi carchardai i wneud gwelliannau sy'n arwain at newid gwirioneddol a phositif ar draws ystâd y carchardai.

Mae gan garchardai dynion caeedig broblemau heriol iawn gyda chamddefnyddio sylweddau. O ganlyniad, mae rhai rhannau o'r strategaeth hon a'r canllawiau cysylltiedig yn canolbwyntio'n benodol ar y carchardai hyn. Serch hynny, mae'r egwyddorion allweddol a llawer o'r arferion gorau yr un mor berthnasol ar draws yr ystâd, a lle rydym yn dysgu gwersi mewn carchardai dynion caeedig, gallwn rannu'r dulliau effeithiol. Rydym hefyd yn targedu buddsoddiad penodol mewn meysydd heriol i brofi ein ffordd o weithio. Rydym yn canolbwyntio ymdrech ychwanegol ar ddeg carchar sydd â sialensiau sylweddol. Mae'r 10 carchar hyn yn elwa o fuddsoddiad ychwanegol o £10 miliwn, y dyrannwyd £6 miliwn ohono'n benodol i fynd i'r afael â chyffuriau. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr rhanbarthol a lleol drwy broses Diagnostig Cyffuriau i nodi'r sialensiau penodol ym mhob carchar ac argymell camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Rydym yn darparu sganwyr corff, cŵn canfod cyffuriau, staff ychwanegol ac offer diogelwch i bob un o'r 10 carchar, yn ogystal â buddsoddiad penodol lle gwelir bod anghenion lleol.

Yn ogystal, mae ein cynllun peilot Atal Cyffuriau yn y Carchar (*Drug Recovery Prison*) gwerth £9 miliwn, ar y cyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder/Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, GIG Lloegr a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn profi ac yn gwerthuso dulliau arloesol o fynd i'r afael â chyffuriau yn y carchar ac yn helpu carcharorion i wella'u siawns o adfer. Bydd y buddsoddiad penodol hwn yn rhoi'r cyfle gorau i ni wneud y carchardai hyn y gorau y gallant fod a rhoi cysondeb wrth ddarparu a llywio ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio orau i weddill ystad y carchardai. Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwn o'r gwaith yn y deg carchar a'r peilot Atal Cyffuriau yn y Carchar i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio ein gwaith ar draws yr holl garchardai.

Mae pob un o'r sefydliadau perthnasol sy'n cydweithio yn allweddol i sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol. I wneud hyn, rydym wedi sefydlu grŵp llywio traws lywodraethol sy'n dod â sefydliadau iechyd, cyfiawnder a gorfodi'r gyfraith at ei gilydd i gyfuno eu dylanwad ac elwa o'u harbenigedd a'u profiad wrth lunio sut i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau mewn carchardai. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos gyda staff rheng flaen mewn carchardai i sicrhau bod ein ffordd o weithio yn gweithio'n dda yn ymarferol.

**Er mwyn lleihau camddefnyddio cyffuriau mewn carchardai, byddwn yn:**

| Cyfyngu ar gyflenwad | Lleihau’r galw | Adeiladu adferiad |
| --- | --- | --- |
| • Lleihau'r cyflenwad o gyffuriau i garchardai drwy ganllawiau, prosesau a thechnoleg.<br><br>• Dod o hyd i gyffuriau sy'n mynd i fewn i garchardai drwy ddefnyddio dulliau chwilio, cudd-wybodaeth a phrofi chyffuriau.<br><br>• Amharu ar y broses o werthu cyffuriau mewn carchardai, gweithio gydag adrannau gorfodi'r gyfraith, rhannu gwybodaeth a mynd i'r afael â llygredd. | • Sicrhau bod y cymhellion cywir mewn carchardai i annog a chefnogi carcharorion i wneud penderfyniadau da.<br><br>• Darparu cyfleoedd cynhyrchiol a pherthnasoedd adeiladol gyda staff i lywio carcharorion i ffwrdd o gyffuriau.<br><br>• Ymgysylltu â theuluoedd, ffrindiau a chyfoedion i helpu carcharorion i ddatblygu rhwydweithiau fydd yn eu helpu i osgoi camddefnyddio sylweddau. | • Cydweithio â phartneriaid iechyd i sicrhau bod y broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn llwyddiannus.<br><br>• Rhannu mentrau llwyddiannus o'r cynllun peilot Atal Cyffuriau yn y Carchar i ganolbwyntio ar garchardai cyfan, ac adferiad.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid cymunedol i sicrhau bod carcharorion yn parhau i dderbyn gofal ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. |

## Cyfyngu ar Gyflenwad




**Pobl**
**Gweithdrefnau**
**Corfforol**
**Poblogaeth**
**Partneriaethau**

## Materion

Mae argaeledd cyffuriau yn ein carchardai yn fygythiad i ddiogelwch, gan rwystro adferiad carcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac arwain eraill i ddatblygu problemau tra yn y carchar. Mae cyffuriau'n cyrraedd carchardai mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys dod drwy'r giât flaen, cael eu taflu dros y perimedr, drwy ymweliadau a'r post, ac mewn dronau. Caiff nifer o achosion eu trefnu drwy ddefnyddio ffonau symudol anghyfreithlon, yn enwedig wrth i ffonau ddod yn llai o faint ac yn anoddach eu canfod tra'n defnyddio offer sganio traddodiadol. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn gwella'r holl rwystrau i gyflenwi cyffuriau yn barhaus, gan gynnwys technoleg, prosesau ac amddiffynfeydd ffisegol i leihau'r cyfleoedd i gyffuriau gyrraedd y carchar. Yn aml, mae smyglo cyffuriau i garchardai yn rhan o economi anghyfreithlon gymhleth, sy'n cael ei annog yn rhannol gan droseddwyr soffistigedig a chyfundrefnol. Felly, mae canfod ac amharu ar y rhai sydd wrth wraidd y troseddu cyfundrefnol hyn yn hollbwysig, yn ogystal â chanfod unrhyw gyffuriau sy'n cyrraedd y carchardai.

Mae profion cyffuriau yn ein helpu i ddeall nifer yr achosion o gyffuriau yn ystad y carchardai. Dangosodd canran y canlyniadau positif o hap-brofion cyffuriau gorfodol (rMDT) gynnydd cyson yn y tair blynedd ariannol ddiweddaraf. Yn 2017/18, roedd 20.4% o rMDT yng Nghymru a Lloegr yn bositif. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau profion ar gyfer sylweddau seicoweithredol, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2018. Ac eithrio profion ar gyfer sylweddau seicoweithredol o'r data, roedd cyfradd rMDT positif yn ystod 2017/18 yn 10.6%, i fyny o 9.3% o'r flwyddyn flaenorol. Mae lledaenu sylweddau seicoweithredol wedi bod yn sylweddol, gyda sylweddau seicoweithredol yn bresennol mewn 60% o'r holl samplau positif yn ystod 2017/18.

Yn 2017/18 cynyddodd nifer yr achosion lle canfuwyd cyffuriau mewn carchardai i 13,119. Roedd hyn i fyny o 10,666 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 23%. Cafwyd hyd i sylweddau seicoweithredol mewn 4,667 o achosion yn 2017/18. Mae nifer y cyffuriau sy'n dod i'r amlwg yn adlewyrchu nid yn unig yr ymgais i drosglwyddo sylweddau anghyfreithlon i'n carchardai ond hefyd ein llwyddiant wrth ddod o hyd i gyffuriau ac adfer y cyffuriau hyn. Rydym yn parhau i weithio i alluogi pob carchar i leihau'r cyflenwad o gyffuriau, dod o hyd i gontraband ac amharu ar fasnachu anghyfreithlon mewn carchardai.

## Ein Gwaith

### *Lleihau'r cyflenwad o gyffuriau*

Lleihau'r cyflenwad o gyffuriau sy'n cyrraedd carchardai – naill ai drwy'r giât neu dros y perimedr - yw'r cam cyntaf tuag at leihau nifer yr achosion ac mae gennym eisoes amrywiaeth o dechnegau i leihau'r cyflenwad. Er enghraifft, rydym yn defnyddio dulliau chwilio'r corff, mae sganwyr canfod metel a chŵn canfod cyffuriau ar draws yr ystad, ac mewn carchardai caeedig, mae ymwelwyr a charcharorion sy'n cyrraedd yn gorfod wynebu proses chwilio cyn mynd i mewn. Mae cryfhau gwytnwch staff i lygredd, ynghyd â nodi ac erlyn y rhai sy'n cam-drin eu sefyllfa er budd personol, hefyd yn allweddol i hyn.

I gryfhau diogelwch y giât a'r perimedr, byddwn yn ehangu'r defnydd o sganwyr pelydr-x yn ehangach ar draws yr ystad i ganfod contraband sy'n cuddio tu fewn, ac rydym hefyd yn buddsoddi mewn technoleg ffonau symudol arloesol newydd sy'n gallu rhwystro carcharorion rhag trefnu i gyflenwi a gwerthu cyffuriau. Bydd y buddsoddiadau hyn yn costio £6 miliwn. Rydym hefyd yn datblygu dulliau diogelwch penodol wrth ymyl giatiau a pherimedrau mewn ymateb i fygythiadau

newydd, fel dyfodiad sylweddau seicoweithredol. Rydym wedi hyfforddi 300 o gŵn canfod cyffuriau ychwanegol yn benodol i ganfod sylweddau seicoweithredol ac rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau i adnabod ac i fynd ar drywydd y rhwydweithiau troseddol sy'n cyflenwi'r sylweddau hyn. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad mewn offer canfod olion i adnabod eitemau, fel dillad a llythyrau, sydd wedi dod i gysylltiad â sylweddau seicoweithredol.

Byddwn yn datblygu safonau diogelwch gofynnol gwell ar gyfer pob carchar ar draws yr ystad. Fel rhan o hyn, ein huchelgais yw ehangu'r defnydd o ddiogelwch gwell wrth ymyl giatiau a pherimedrau, yn debyg i'r hyn a geir mewn meysydd awyr, yn enwedig mewn carchardai lleol sy'n wynebu rhai o'r sialensiau mwyaf gyda chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cynnwys mwy o dechnoleg chwilio a sganio, fel sganwyr pelydr-x ar gyfer bagiau ac eitemau personol, sganwyr canfod olion a bwâu a ffyn canfod metel.

Nid mater o ddefnyddio technoleg yn unig yw lleihau'r cyflenwad o gyffuriau. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cynnal prosesau effeithiol ac yn ymateb i ddulliau newydd o smyglo cyffuriau. Rydym wedi sefydlu Uned Risg Diogelwch benodol, sy'n nodi bygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac yn sicrhau bod carchardai yn cael eu paratoi ar gyfer y rhain, gyda gwybodaeth a thechnoleg gyfoes. Mae'r defnydd o bapur sy'n llawn sylweddau seicoweithredol wedi dangos bod troseddwyr yn parhau i arloesi ac mae'n rhaid i ni ymateb. Rydym wedi rhoi arweiniad ar sut i ganfod ac ymateb i ymdrechion i drosglwyddo papur â chyffuriau arno i bob carchar a bydd hyn yn helpu carchardai yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â'r llwybr cyflenwi hwn. Rydym hefyd wedi gweithio i dynnu canllawiau i staff at ei gilydd er mwyn adolygu a gwella eu prosesau ymweliadau i leihau'r cyfle i bobl ddod â sylweddau anghyfreithlon i mewn a'u trosglwyddo. Bydd y canllawiau hefyd yn cynorthwyo staff i gryfhau arferion mewn derbynfeydd carchardai i adnabod carcharorion sydd o dan amheuaeth o smyglo cyffuriau i mewn i garchardai wrth gyrraedd. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar y rhai a allai dorri amodau eu trwydded yn fwriadol er mwyn dod â chyffuriau yn ôl i'r carchar, naill ai am elw neu dan orfodaeth.

Mae pob carchar yn wahanol, a byddant yn elwa o offer i asesu eu hanghenion diogelwch penodol. Rydym wedi gweithio gyda charchardai i gynnal Asesiadau Mewn Perygl i greu darlun o'r risgiau diogelwch a galluogi sefydliadau i dargedu eu hadnoddau'n well i fynd i'r afael â nhw. Bydd yr adnodd hwn yn parhau i gael ei gynnig ar draws yr ystad. Mae'r pecyn cymorth Diagnostig Cyffuriau a ddefnyddiwyd ar gyfer y carchardai yn y Prosiect 10 Carchar hefyd wedi bod yn ddefnyddiol wrth nodi materion allweddol mewn gwahanol sefydliadau, felly byddwn yn rhannu hwn i'w ddefnyddio ar draws yr ystad gyfan, gan gefnogi carchardai i nodi lle gallai newidiadau gael yr effaith fwyaf.

### ***Dod o hyd i gontraband***

Ynghyd â lleihau'r cyflenwad o gyffuriau, rhaid i ni sicrhau bod cyffuriau a chontraband eraill sy'n mynd i mewn i garchardai yn cael eu canfod a'u symud. Mae canfod contraband yn dibynnu ar amser ein staff ymroddedig i chwilio a chymryd camau dilynol. Rydym eisoes wedi recriwtio dros 4,700 o staff newydd ac rydym yn parhau i recriwtio yn ogystal â sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant angenrheidiol, perthnasol a defnyddiol. Byddwn hefyd yn cyflwyno timau chwilio arbenigol ar draws yr ystad, gan weithredu ar gudd-wybodaeth i atal a rhwystro gweithgarwch troseddol a dod o hyd i gontraband. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn bron i 6,000 o gamerâu fideo sy'n cael eu gwisgo ar y corff i swyddogion carchar fel rhwystr gweladwy yn erbyn trais a throseddu.

Mae dod o hyd i gyffuriau a nodi'r rhai sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau yn cael ei gefnogi ymhellach gan gyfundrefn profi cyffuriau effeithiol. Gall carcharorion sy'n rhoi prawf positif fod yn destun sancsiynau, yn ogystal â chael eu cefnogi i gael triniaeth, felly mae profion yn allweddol i annog carcharorion i aros yn rhydd o gyffuriau a'u helpu i gynnal hyn. Mae'r broses brofi hefyd yn helpu i fonitro tueddiadau defnyddio cyffuriau mewn carchardai, yn llywio gweithgareddau sy'n lleihau nifer yr achosion o gyffuriau mewn carchardai, ac yn cyfrannu at gudd-wybodaeth am gyflenwi a defnyddio cyffuriau. Mae canlyniadau'r profion yn cyfrannu at bolisïau trin cyffuriau ac yn galluogi llywodraethwyr a darparwyr gofal iechyd i ddeall anghenion eu carcharorion yn well.

Mae carchardai yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau profi cyffuriau. Gall carcharorion orfod cynnal Hapbrofion Cyffuriau Gorfodol (rMDT) neu Hapbrofion Cyffuriau sy'n Seiliedig ar Amheuaeth bob mis, neu gallant wirfoddoli am Brawf Cyffuriau sy'n Seiliedig ar Gytundeb i ddangos eu bod yn rhydd o gyffuriau, tra gellir defnyddio profion clinigol at ddibenion gofal iechyd. Ym mis Medi 2016, ni oedd y gwasanaeth carchardai cyntaf yn y byd i gyflwyno profion cyffuriau gorfodol arloesol ar gyfer sylweddau seicoweithredol, sy'n gam sylweddol tuag at fynd i'r afael â'r cyflenwad a'r defnydd ohonynt.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gyflwyno dulliau mwy arloesol o brofi cyffuriau er mwyn gwella ei effeithiolrwydd. Rydym yn symud tuag at ddull mwy cynhwysfawr drwy wella rMDT, drwy sicrhau ein bod yn profi ar gyfer yr holl sylweddau perthnasol ac yn mynd i'r afael â chamddefnyddio meddyginiaeth fferyllol a meddyginiaeth presgripsiwn. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth well i ni i gefnogi ein gwaith, a'n galluogi i adnabod tueddiadau ac ymateb yn gyflym i newidiadau.

***Amharu ar werthu cyffuriau yn anghyfreithlon***

Cefnogir ein staff a'n technoleg gan ein gwybodaeth o'r rheini sy'n gyfrifol am smyglo cyffuriau mewn carchardai a'u dulliau. Mae amharu ar fasnachu anghyfreithlon a rhwydweithiau troseddol y tu mewn i garchardai yn atal ac yn rhwystro cyflenwad cyffuriau a chontraband. Mae rhai o'r troseddwyr mwyaf cyson yn anodd eu canfod, gan eu bod yn defnyddio tactegau gwahanol i guddio eu gweithgareddau, gan gynnwys manteisio ar droseddwyr eraill i ddal contraband ar eu rhan, felly mae ein defnydd o gudd-wybodaeth yn allweddol.

Mae Uned Cudd-wybodaeth Genedlaethol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn gweithio gyda charchardai, partneriaid prawf a gorfodi'r gyfraith i ddatblygu cudd-wybodaeth yn rhagweithiol am droseddwyr sy'n rhoi'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch carchardai a diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau. Maent yn canolbwyntio ar gefnogi ymchwiliadau ac erlyniadau llwyddiannus lle mae troseddau'n digwydd drwy'r amser, yn ogystal ag adeiladu diwylliant o gydweithio a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid gorfodi'r gyfraith i wneud carchardai a'n cymunedau yn fwy diogel. Rydym wedi buddsoddi £3 miliwn ychwanegol i sefydlu'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, sy'n cynnwys timau cenedlaethol a rhanbarthol a fydd yn tanseilio ac yn amharu'n ddidostur ar droseddau difrifol a chyfundrefnol drwy ddarparu cymorth i garchardai lleol a thimau prawf, a gweithio'n agos gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Gyda chefnogaeth yr unedau arbenigol hyn, bydd carchardai mewn gwell sefyllfa i weithio'n agos gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a darparwyr gwasanaethau lleol eraill i adeiladu a rhannu cudd-wybodaeth am rwydweithiau troseddol, yn unol ag ymrwymiadau yn y Strategaeth Troseddau

Difrifol a Chyfundrefnol[4]. Mae gweithredu ar y cyd, sydd wedi'i dargedu, yn arwain at ddedfrydau sylweddol a gwelliannau i fesurau diogelwch, gan gyfyngu'n ddifrifol ar allu troseddwyr i gyflenwi cyffuriau i garchardai.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n cudd-wybodaeth, rydym yn buddsoddi £1 miliwn mewn gwasanaeth categoreiddio digidol cenedlaethol, a fydd yn rhoi ystod ehangach o wybodaeth am droseddwyr gwrywaidd sy'n dod i'r carchar, gan gynnwys y rheini a allai fod â'r gallu i smyglo cyffuriau, i gefnogi penderfyniadau ynglŷn ble y cânt eu lleoli a sut i reoli'r risgiau diogelwch. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi sefydlu uned troseddau ariannol arbenigol i nodi a rhewi cyfrifon banc sy'n gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol yn y carchar, gwyngalchu arian a delio â chyffuriau. Bydd hyn yn amharu ar weithgarwch rhwydweithiau troseddol a'r rheini sy'n cyflenwi cyffuriau yn y carchar.

Bydd y canllawiau a roddir i garchardai ochr yn ochr â'r strategaeth hon hefyd yn helpu llywodraethwyr i amharu ar fasnachu a chyflenwi anghyfreithlon o fewn eu sefydliadau o ffynonellau eraill. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda darparwyr gofal iechyd i sicrhau bod meddyginiaethau presgripsiwn yn cael eu rhoi mewn ffordd ddiogel, a nodi ac erlyn y rhai sy'n euog o lygredd. Rydym yn lansio strwythur diwygiedig ar gyfer yr Uned Gwrthlygredd yn 2019 a fydd yn gwella'r defnydd o gudd-wybodaeth i fynd i'r afael â llygredd, gan gynnwys masnachu cyffuriau. Yn ogystal â hyn, mae Fframwaith Polisi Gwrth-Lygredd newydd yn cael ei ddatblygu i gryfhau gwytnwch yn erbyn llygredd ymhlith staff carchardai a chefnogi carchardai ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith i nodi staff sy'n defnyddio'u swyddi er budd anghyfreithlon.

---

[4] Llywodraeth Ei Mawrhydi, (2018), Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/752850/SOC-2018-web.pdf

## Ein Amcanion

Lleihau cyfran yr Hap-Brofion Cyffuriau Gorfodol (rMDT) sy’n bositif erbyn mis Mawrth 2020.

## Byddwn yn

| | |
|---|---|
| **Pobl** | • Darparu canllawiau a chyngor i bob carchar ar fesurau diogelwch gan gynnwys chwilio, derbynfeydd carchardai, ymweliadau a dulliau newydd erbyn mis Ebrill 2019.<br>• Rhannu'r pecyn cymorth Diagnostig Cyffuriau gyda'r holl garchardai erbyn mis Ebrill 2019, ochr yn ochr â chanllawiau i gynorthwyo pob carchar i nodi gwelliannau yn eu harferion eu hunain. |
| **Gweithdrefnau** | • Adolygu ein ffordd o brofi cyffuriau i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gytbwys.<br>• Lansio Uned Gwrth-Lygredd wedi'i hailstrwythuro i fynd i'r afael â llygredd, gan gynnwys masnachu cyffuriau, erbyn gwanwyn 2019. |
| **Corfforol** | • Ehangu’r defnydd o ddiogelwch giatiau a pherimedrau gwell ar draws ystad y carchardai, yn enwedig mewn carchardai lleol.<br>• Cynyddu’r broses o chwilio pawb sy’n cyrraedd carchardai, gan gynnwys carcharorion, ymwelwyr a staff. |
| **Poblogaeth** | • Datblygu'r Gwasanaeth Categoreiddio Digidol i roi ystod ehangach o wybodaeth am droseddwyr gwrywaidd sy'n dod i'r carchar, gan gynnwys y rheini a allai fod â'r gallu i smyglo cyffuriau i'r carchar. |
| **Partneriaethau** | • Adeiladu ein hunedau cudd-wybodaeth cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygu cudd-wybodaeth am y troseddwyr hynny sy'n peri'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch y carchar.<br>• Gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith i weithredu'r ymrwymiadau yn y Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol i reoli troseddwyr oes gyda throseddwyr cyfundrefnol yn y carchar, i atal ac amharu ar eu troseddu. |

## Lleihau’r Galw




**Pobl**
**Gweithdrefnau**
**Corfforol**
**Poblogaeth**
**Partneriaethau**

## Materion

Er bod galw am gyffuriau mewn carchardai, bydd troseddwyr yn ceisio manteisio ar y galw hwnnw. O ganlyniad, os na chaiff y galw ei ostwng, yna byddai cyfyngu ar gyflenwad cyffuriau fel y nodir uchod, yn arwain at brisiau uwch ac elw posibl i'r troseddwyr hynny sy'n ceisio cyflenwi cyffuriau. Felly, bydd ein Strategaeth Gyffuriau yn mynd i'r afael â'r galw am gyffuriau ochr yn ochr â chyfyngu ar gyflenwad. Dim ond drwy leihau'r farchnad gyffuriau y gallwn leihau eu hamlygrwydd. Mae lleihau'r galw am gyffuriau yn dibynnu ar sicrhau bod carcharorion yn deall canlyniadau defnyddio cyffuriau, o fewn y carchar a'r risgiau ehangach iddyn nhw a'u teuluoedd, a chynnig cyfleoedd sy'n rhoi pwrpas a chyfeiriad.

Dangosodd arolygon carcharorion Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi 2017/18 fod 13% o garcharorion gwrywaidd yn dweud eu bod wedi datblygu problem gyda chyffuriau anghyfreithlon yn eu carchar presennol, tra bod 11% wedi dweud eu bod wedi datblygu problem camddefnyddio meddyginiaeth na ragnodwyd[5]. Dangosodd hefyd fod 42% o garcharorion benywaidd a 28% o garcharorion gwrywaidd yn dweud eu bod wedi cael problem gyffuriau (gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon neu feddyginiaeth nad oeddent wedi'u rhagnodi iddynt) pan gyrhaeddon nhw eu carchar presennol[6]. Dylai carchardai fod yn llefydd o newid ac adferiad positif, felly mae'n rhaid i ni gefnogi carcharorion i osgoi camddefnyddio cyffuriau.

## Ein Gwaith

### *Cymhellion*

Mae popeth sy'n digwydd mewn carchar yn dylanwadu ar ymddygiad a gweithredoedd y carcharorion oddi mewn. Gall camddefnyddio cyffuriau arwain at garcharorion yn mynd i ddyled, ymhél â thrais a throseddau eraill neu eu hecsbloetio gan garcharorion eraill. Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r problemau hyn mewn ffordd holistaidd ac yn sicrhau bod carcharorion yn deall risgiau eu gweithredoedd, felly bydd strategaethau cyffuriau carchardai lleol yn cael eu cysylltu'n agos â strategaethau diogelwch a mentrau eraill. Mae gan lawer o garcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau gyflyrau iechyd meddwl felly mae ein ffordd o weithio yn cynnwys gofal iechyd, diogelwch a chymorth, yn ogystal â chyfyngu ar gyflenwad. Er mwyn lleihau'r galw am gyffuriau mewn carchardai, mae angen i ni sicrhau bod y cymhellion yn arwain pobl at wneud dewisiadau positif sy'n eu harwain i ffwrdd o gyffuriau tuag at gyfleoedd i wella.

Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi dysgu o waith blaenorol ar adain adfer cyffuriau i ddatblygu'r syniadau Defnyddiwr Sylweddau a Nodwyd a'r Rhaglen Cymhelliant Byw Heb Sylweddau. Bydd dull Defnyddiwr Sylweddau a Nodwyd yn helpu carchardai i ymateb yn effeithiol pan fydd unigolyn yn methu prawf cyffuriau drwy gynnig cymorth a thriniaeth i'r rheini sydd eisiau ymatal a chanllawiau clir am sancsiynau i droseddwyr cyson sydd ddim yn ymgysylltu â'r cymorth. Caiff hyn ei hybu ymhellach gan adolygiad o'r broses ddyfarnu a'n cynlluniau i greu un fframwaith polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gwmpasu'r broses ddyfarnu a'r protocol troseddau yn y carchar. Drwy gyfrwng profion gwirfoddol rheolaidd, bydd adain Rhaglen Cymhelliant Byw Heb Sylweddau yn

---

[5] Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr (2018), Adroddiad Blynyddol 2017-18, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/07/6.4472_HMI-Prisons_AR-2017-18_Content_A4_Final_WEB.pdf, p.26.

[6] Ibid., t.126.

caniatáu i garcharorion sy'n profi nad ydynt yn camddefnyddio cyffuriau brofi amodau byw gwell. Mae hyn yn ymwneud â rhoi cyfle i garcharorion gymryd cyfrifoldeb am eu hadferiad eu hunain, neu ynysu eu hunain rhag y risgiau o ymhél â chyffuriau, a'u helpu i ddyfalbarhau gyda'r dewis hwnnw.

Rydym wedi ymgynghori â llywodraethwyr carchardai a rhanddeiliaid ar fframwaith polisi Cymhellion a Breintiau a Enillwyd newydd, a ddatblygwyd i rymuso carchardai i ddefnyddio sancsiynau a breintiau i gefnogi ac annog carcharorion i ymgysylltu â gweithgareddau a thriniaeth gynhyrchiol. Bydd hyn yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth ar y cyd, lle mae carcharorion yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn gyfnewid. Yn y byr dymor, bydd yn annog carcharorion i gymryd rhan mewn gweithgareddau gan gynnwys addysg, gwaith a thriniaeth, gan gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain, a fydd yn ei dro yn eu cefnogi i wneud dewisiadau gwell am gyffuriau. Ac yn y tymor hwy, bydd y newidiadau hyn yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar rôl dysgu a chyflogaeth wrth adsefydlu a lleihau risg.

### *Cyfleoedd*

Daeth astudiaeth yn 2016 i'r casgliad bod llawer o garcharorion yn teimlo y bydd defnyddio cyffuriau yn helpu i leddfu diflastod ac i gynnig seibiant dros dro o iselder a phryder[7]. O ganlyniad, mae sicrhau bod amgylchedd y carchar yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol ac ymrwymo i newid positif yn allweddol i gynnig gobaith ar gyfer y dyfodol ac annog carcharorion i droi wrth gyffuriau. Bydd ein Strategaeth Addysg a Chyflogaeth yn cefnogi carcharorion ar lwybr i gyflogaeth o'r eiliad y byddant yn cyrraedd y carchar, a byddwn yn defnyddio Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro i gefnogi carcharorion i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r Rhwydwaith Dyfodol Newydd yn bartneriaeth rhwng carchardai a chyflogwyr i greu cyfleoedd i gyn-garcharorion ar ôl eu rhyddhau, yn ogystal â chynnig gweithgareddau pwrpasol yn y carchar. Rydym hefyd yn rhoi mwy o ryddid i lywodraethwyr carchardai ynglŷn â sut maent yn defnyddio eu cyllideb addysg er mwyn iddynt allu rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r carcharorion ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod carcharorion allan o'u celloedd mor aml â phosibl, gyda gweithgareddau cynhyrchiol, tra bydd gweithgareddau mewn celloedd yn helpu i sicrhau bod carcharorion yn ymgysylltu'n bositif pan fyddant yn eu celloedd hefyd.

Mae staff gweithgar ac ymroddedig yn sail i'n holl waith. Mae swyddogion carchar ychwanegol wedi'u recriwtio i gyflawni gwaith allweddol a byddant hefyd yn helpu i sicrhau bod gan garchardai y staff sydd eu hangen i weithredu cyfundrefnau mwy strwythuredig a dibynadwy. Wrth i gam cyntaf y model Rheoli Troseddwyr newydd yn y Ddalfa gael ei gyflwyno, bydd swyddogion carchar yn ymgymryd â rôl gweithiwr allweddol lle byddant i gyd yn gweithio'n agos gyda nifer fach o garcharorion. Bydd hyn yn eu galluogi i feithrin perthnasoedd adeiladol i gefnogi carcharorion i deimlo'n ddiogel, yn dawel ac wedi setlo gyda'r nod o wella diogelwch. Bydd Cam Dau o'r model OMIC yn cyflwyno dull newydd o reoli troseddwyr gyda ffocws cliriach ar gynllunio dedfrydau a chefnogi carcharorion fel bod staff yn deall anghenion a risgiau unigol yn well. Bydd hyn yn cynnwys arwain carcharorion tuag at driniaeth a chymorth a allai eu helpu gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, a'u cynnwys mewn gweithgareddau ystyrlon sy'n eu troi wrth gyffuriau. Rydym wedi dechrau proses i adolygu ein harlwy hyfforddiant camddefnyddio sylweddau ac iechyd

---

7 User Voice, (2016), Spice: The Bird Killer, What prisoners think about the use of spice and other legal highs in prison, https://drive.google.com/file/d/0BzKDGOPNOkMDVmVhYlVxN2VnS3c/view, p.3.

meddwl presennol i sicrhau bod ein staff yn derbyn hyfforddiant cadarn ac effeithiol yn y meysydd hyn.

### *Teuluoedd a chyfoedion*

I gloi, mae yna unigolion allweddol eraill ym mywydau carcharorion sy'n helpu i lywio eu penderfyniadau a'u ffordd o feddwl. Amlygodd adolygiad yr Arglwydd Farmer bwysigrwydd cysylltiadau teuluol y carcharorion a'r cysylltiadau rhwng perthnasau teuluol a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, ac rydym yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad hwnnw[8]. Mae rôl teuluoedd a chyd-garcharorion wrth helpu pobl i wneud ac ymrwymo i benderfyniadau da yn hanfodol, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod carchardai yn gwneud defnydd da o ddylanwadau positif. Gall camddefnyddio cyffuriau hefyd effeithio ar deuluoedd a ffrindiau, wrth iddynt geisio cefnogi carcharorion a gallant gael eu hunain dan bwysau i fynd i ddyled neu i gludo cyffuriau i garchardai. Gyda chefnogaeth ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth i helpu carcharorion wneud penderfyniadau da, gan gynnwys arweiniad gofalus am beryglon sylweddau niweidiol sy'n dod i'r amlwg, bydd carchardai yn gallu defnyddio amrywiaeth o adnoddau i gefnogi eu carcharorion.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod manteision clir o gael model cymorth cyfoedion da mewn lleoliad diogel, gan gynnwys mwy o hunaniaeth bositif, sgiliau cyflogadwyedd ac effaith bositif ar agweddau, ymgysylltiad ac ymddygiad y rhai sy'n ei dderbyn[9]. Cyhoeddwyd pecyn cymorth newydd i gyfoedion ym mis Mai 2018 sy'n cefnogi ac yn hwyluso datblygiad cymorth cyfoedion ar draws ystad y carchardai. Mae gan garchardai hefyd rôl bwysig wrth ynysu carcharorion rhag dylanwadau negyddol, felly rhaid ystyried dewis cefnogwyr sy'n gyfoedion yn ofalus er mwyn sicrhau na ellir camddefnyddio'r sefyllfa. Gall cynrychiolwyr carcharorion hefyd gyflawni rôl bwysig wrth gyfathrebu rhwng carcharorion a staff ynglŷn â materion sy'n peri pryder, diogelwch a pharch a chwrteisi.

---

8 Yr Arglwydd Farmer, (2017), Pwysigrwydd Cryfhau Cysylltiadau Teuluol Carcharorion i Rwystro Aildroseddu a Lleihau Trosedd Rhwng Cenedlaethau, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/642244/farmer-review-report.pdf

9 Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, (2016), Bywyd mewn carchar: Cymorth cyfoedion, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/life-in-prison-peer-support/, p. 4.


## Ein Amcanion

Cynyddu'n raddol yr amser y mae carcharorion yn ei dreulio y tu allan i'w celloedd, ac yn ymgysylltu â gweithgarwch cynhyrchiol (gwaith, addysg neu driniaeth).

## Byddwn yn

| | |
|---|---|
| **Pobl** | • Adnewyddu'r hyfforddiant camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl a ddarperir i swyddogion carchar newydd a sicrhau bod hyfforddiant sydd wedi'i ddiweddaru ar gael i staff presennol. |
| **Gweithdrefnau** | • Creu un Fframwaith Polisi Dyfarniadau a Throsedd mewn Carchardai sy'n seiliedig ar dystiolaeth a Fframwaith Polisi Cymhellion a Breintiau a Enillwyd ar ei newydd wedd. |
| **Corfforol** | • Cefnogi carchardai i sefydlu rhaglen i gymell byw heb sylweddau, rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arfer gorau o'r Prosiect 10 Carchar erbyn haf 2019. |
| **Poblogaeth** | • Gweithredu model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa yn llawn ym mhob carchar erbyn mis Rhagfyr. |
| **Partneriaethau** | • Parhau i weithredu argymhellion adolygiad yr Arglwydd Farmer i sicrhau bod ymgysylltu â theuluoedd yn allweddol i ddull carchardai o fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. |

## Adeiladu Adferiad




**Pobl**
**Gweithdrefnau**
**Corfforol**
**Poblogaeth**
**Partneriaethau**

## Materion

Un o brif ffyrdd carchardai o anelu at atal aildroseddu yw adsefydlu a goresgyn problemau camddefnyddio sylweddau. Nid yw goresgyn dibyniaeth yn hawdd ac mae'n rhaid i'n carchardai gael diwylliant sy'n cydnabod hyn a cheisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol caethiwed er mwyn cefnogi adsefydlu hirdymor. Gyda chefnogaeth prosesau a gweithdrefnau sy'n cyfyngu ar gyflenwad ac argaeledd cyffuriau, a fframweithiau cymhelliant a chyfundrefnau sy'n lleihau'r galw amdanynt, gall carchar ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau, sy'n aml yn gysylltiedig â'r troseddau a arweiniodd at eu carcharu yn y lle cyntaf. Bydd y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa yn galluogi swyddogion carchar a phrawf i ddatblygu perthynas bositif â charcharorion, eu cyfeirio at wasanaethau priodol, a chyflawni'r amcanion adfer ac addysgol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r galw am gyffuriau, osgoi cam-fanteisio ar y grŵp bregus hwn a lleihau aildroseddu.

Mae gan lawer o garcharorion anghenion cymhleth ac wedi dioddef o drawma, gyda chyfraddau camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl ac iechyd corfforol gwael yn uwch ymhlith carcharorion nag ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol[10]. Mae cyfraddau cyd-forbidrwydd hefyd yn uchel, gyda nifer o garcharorion sy'n camddefnyddio cyffuriau hefyd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Gall bod yn y carchar yn aml waethygu iechyd meddwl a llesiant gwael a gall carcharorion droi at gyffuriau (cyffuriau anghyfreithlon a/neu feddyginiaeth sydd heb eu rhagnodi iddynt) mewn ymgais i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Gall camddefnyddio cyffuriau arwain at ganlyniadau trasig, ac yn ddiweddar, gwelwyd cynnydd yn nifer y marwolaethau yn y ddalfa lle mae'n ymddangos bod camddefnyddio sylweddau wedi bod yn ffactor.

## Ein Gwaith

### *Triniaeth*

Yn fwy nag unrhyw ran arall o'n strategaeth, mae hwn yn faes lle rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid. Dyna pam rydym wedi cydweithio i ddatblygu'r Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol (CPC) ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr, a lofnodwyd ym mis Ebrill 2018 gan bawb sydd â rôl ym mholisi, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd mewn carchardai[11]. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â GIG Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Un o'r prif flaenoriaethau a amlinellir yn y CPC yw lleihau effaith camddefnyddio sylweddau, mynd i'r afael â'r risgiau a'r niwed sy'n deillio o hynny, a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg iawn. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd partneriaid CPC gynllun gwaith sy'n amlinellu manylion y

---

[10] Yr Arglwydd Bradley, (2009), Adroddiad Bradley: Adolygiad Yr Arglwydd Bradley o bobl â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol, https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130105193845/http:/www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/documents/digitalasset/dh_098698.pdf, p. 97.

[11] Llywodraeth Ei Mawrhydi a GIG Lloegr, (2018), Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/697130/moj-national-health-partnership-2018-2021.pdf

gweithgareddau sy'n cael eu cynnal i gyflawni'r 10 blaenoriaeth[12]. Bydd y blaenoriaethau hyn, a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn y cynllun gwaith, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru wrth i waith y Bartneriaeth Genedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr fynd rhagddo. Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi cytuno ar set o flaenoriaethau ar y cyd gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar gyfer iechyd a llesiant carcharorion yng Nghymru, sy'n cynnwys datblygu llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru.

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd GIG Lloegr Fanyleb Gwasanaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Trin Camddefnyddio Sylweddau Integredig mewn carchardai yn Lloegr. Mae hyn yn rhoi fwy o sylw ar driniaeth i ddefnyddwyr sylweddau seicoweithredol, maes yr oedd angen ei adnewyddu i adlewyrchu patrymau newidiol defnyddwyr cyffuriau. Mae GIG Lloegr hefyd yn datblygu rhaglen waith i gwmpasu ymyriadau camddefnyddio sylweddau a all effeithio ar newid sylweddol mewn ymatebion iechyd i sylweddau seicoweithredol. Bydd hyn yn rhoi ystyriaeth i hyfforddi staff, ymyriadau cymorth cyntaf a gweithgareddau adfer ehangach.

Mae'r Fanyleb Gwasanaeth newydd hefyd yn pwysleisio cysylltiadau cryfach â thriniaeth iechyd meddwl fel nad oes 'unrhyw ddrws anghywir' i garcharorion sy'n chwilio am help - byddant yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl os yw'r problemau yn gofyn am gymorth. O ystyried cyd-forbidrwydd camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl, mae hwn yn gam hollbwysig ymlaen a bydd yn helpu mwy o bobl i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd cynllun peilot Atal Cyffuriau yn y Carchar ar y cyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder/Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a GIG Lloegr yng Ngharchar Holme House i fynd i'r afael â chyffuriau yn y carchar a helpu carcharorion i wella. Rydym yn gweithio law yn llaw â GIG Lloegr gyda chyfran sylweddol o'r buddsoddiad ychwanegol yn mynd tuag at helpu carcharorion i dorri arferion camddefnyddio cyffuriau. Mae'r cynllun peilot tair blynedd yng Ngharchar EM Holme House yn cynnwys staff iechyd newydd, gan gynnwys seicolegydd arbenigol, sy'n cynnig gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gwell i sicrhau bod carcharorion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae yna dîm Cysylltu Cymunedau hefyd sy'n helpu carcharorion i drosglwyddo o'r ddalfa i'r gymuned drwy helpu'r broses o ymgysylltu â theuluoedd a threfnu apwyntiadau ar gyfer triniaethau cyffuriau ac alcohol, llety a chyngor ariannol. Bydd mentrau llwyddiannus a'r gwersi a ddysgwyd yng Ngharchar EM Holme House yn cael eu rhannu â gweddill yr ystad ac yn llywio arfer gorau. Rydym hefyd yn edrych ar gyfleoedd posibl gyda phartneriaid iechyd i ddyblygu'r syniad Atal Cyffuriau yn y Carchar o fewn yr ystad ddiogel ac ar ôl eu rhyddhau.

Fodd bynnag, ni fydd unrhyw fodel unigol yn gweddu i bob carcharor a sefydliad, felly mae angen i ni sicrhau bod pob sefydliad yn gallu nodi anghenion ei garcharorion a bod llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'u partneriaid iechyd i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion eu poblogaeth o garcharorion. I wneud hynny, bydd angen i lywodraethwyr carchardai ystyried y sylweddau sydd fwyaf cyffredin yn y carchar, cymysgedd demograffig y garfan, yr anghenion a allai fod ganddynt, a'r ystod o ymyriadau gwahanol y gallai fod eu hangen - boed hynny'n feddyginiaeth,

---

[12] Llywodraeth Ei Mawrhydi a GIG Lloegr, (2018), Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr, Cynllun Gwaith 2018-2021, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/764884/NPA_Workplan_for_Publication.pdf

cymorth seicogymdeithasol, rôl teuluoedd a chyfoedion, neu ddull arall rydym yn gwybod sy’n effeithiol. Bydd y canllawiau a ddarperir ochr yn ochr â'r strategaeth hon yn cefnogi llywodraethwyr i wneud hyn ac i ddod o hyd i ffyrdd o wella cydweithio.

Pwysleisir pwysigrwydd y gwaith hwn gan y ffaith y gall camddefnyddio cyffuriau arwain at ganlyniadau trasig. Er ein bod yn monitro marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, yn hanesyddol nid ydym wedi defnyddio'r categori hwn mewn ystadegau a gyhoeddir. Yng ngoleuni'r cynnydd ymddangosiadol yn nifer yr achosion hyn, rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i greu a gweithredu system gofnodi sy'n caniatáu nodi marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn carchardai. Ein nod yw cyhoeddi'r ystadegau cyntaf gan ddefnyddio'r categori hwn ym mis Gorffennaf 2019.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Bydd holl ffrydiau’r strategaeth hon yn cyfrannu at hyn, yn ogystal â gwaith ehangach ar ddiogelwch mewn carchardai a chymorth i'r rheini sydd â chyflyrau iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl. Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn hollbwysig, felly rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau dull hotistaidd.

***Cyffuriau Presgripsiwn a Chyffuriau Fferyllol***

Mae meddyginiaethau presgripsiwn yn cael eu defnyddio a'u camddefnyddio'n helaeth mewn carchardai, gan gyflwyno sialensiau sylweddol i ddiogelwch. Yn 2015, daeth adroddiad thematig Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar batrymau newidiol camddefnyddio cyffuriau mewn carchardai i’r casgliad fod un o bob deg carcharor wedi dweud eu bod wedi defnyddio naill ai meddyginiaeth yn lle cyffuriau neu feddyginiaeth arall na ragnodwyd iddynt[13]. Dywedodd 18% o ymatebwyr eu bod wedi camddefnyddio o leiaf un math o feddyginiaeth, gyda phoenladdwyr (10%) a meddyginiaeth i helpu cwsg (10%) ymhlith y meddyginiaethau mwyaf cyffredin. Mae camddefnyddio cyffuriau presgripsiwn yn arbennig o gyffredin ymhlith yr ystad fenywaidd a gall fod yn anoddach ei ganfod. Mae rhai carcharorion yn gofyn am feddyginiaeth presgripsiwn ar gyfer effaith seicotropig y cyffur a bydd llawer yn dargyfeirio eu triniaeth ragnodedig drwy ei masnachu neu ei gwerthu i eraill. Y perygl gyda hynny yw sgil-effeithiau, rhyngweithiadau a gorddosau niweidiol, yn ogystal â chyfrannu at yr economi anghyfreithlon a chynyddu'r risg o ddyled.

Rhaid i ni leihau camddefnyddio meddyginiaeth presgripsiwn a meddyginiaeth fferyllol a dargyfeirio presgripsiynau oddi wrth y rhai y maent wedi'u rhagnodi iddynt, gan sicrhau'r ystod briodol o driniaethau ac ymyriadau i'r rhai sydd eu hangen. I wneud hyn, rydym yn sicrhau bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ardaloedd priodol a diogel i weithio ynddynt a bod gweinyddu meddyginiaethau yn cael ei wneud yn drefnus i leihau'r risg o ddargyfeirio. Mae swyddogion carchar yn gweithio gyda staff gofal iechyd i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei defnyddio'n briodol ac argymhellir bod pob carchar yn cael Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau i oruchwylio'r broses hon.

---

[13] Arolygiaeth Carchardai EM, (2015), Patrymau newidiol camddefnyddio sylweddau mewn carchardai i oedolion ac ymatebion gwasanaethau https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2015/12/Substance-misuse-web-2015.pdf, p. 34.

***Parhau â'r gofal***

Rhaid i ni gofio nad yw gofal a'n cyfrifoldeb yn gorffen pan fydd carcharor yn gadael y carchar. Mae'r newid mewn amgylchiadau sy'n gysylltiedig â symud o'r ddalfa i'r gymuned yn peri risg o droi'n ôl at yr hen ffordd - yn 2017/18, dim ond 32% o droseddwyr yn Lloegr gydag anghenion triniaeth camddefnyddio sylweddau fu'n llwyddiannus mewn triniaeth yn y gymuned o fewn 21 diwrnod o'u rhyddhau o'r carchar. [14]

Mae hyn yn cyfeirio at bwysigrwydd parhau i gynnig gofal a'r rôl y mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a Meddygon Teulu yn ei chwarae wrth gefnogi carcharorion wrth iddynt drosglwyddo'n ôl i'r gymuned. Ar gyfer carchardai yn ne Cymru, caiff y gwasanaeth Cwnsela, Asesu, Atgyfeirio, Cyngor a Gofal Drwy'r Broses (CARAT) ei ddarparu gan Dyfodol, a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru. Mae'n cynnig gwasanaeth integredig o ddalfa'r heddlu, i'r llys, i'r gwasanaeth prawf, y ddalfa ac i'r gymuned, gan barhau i ddarparu gofal i droseddwyr.

Ym mis Awst 2018, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr becyn cymorth archwilio a chanllawiau ar wella parhad gofal rhwng y ddalfa a'r gymuned, gyda chyngor i garchardai a darparwyr gofal iechyd lleol ar sut i wella'r broses bontio a sicrhau perthnasoedd gweithio effeithiol[15]. Mae'n ofynnol i bractisau meddygon teulu dderbyn cyn-gofrestru gan garcharorion sy'n dod i ddiwedd eu dedfryd, ac ar ôl ei weithredu'n llawn, bydd hyn yn cefnogi'r broses adsefydlu drwy helpu i atal unrhyw oedi wrth gael mynediad i'r triniaethau angenrheidiol ar ôl eu rhyddhau. Ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn benodol, bydd Pwyntiau Cyswllt Unigol (SPOCs) ar gyfer gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau yn y ddalfa yn cael eu hail-sefydlu i wella'r broses o rannu gwybodaeth iechyd drwy'r giât. Y cynllun yw ail-lansio'r blychau post ar gyfer y gwasanaethau hyn er mwyn annog rhannu gwybodaeth yn ddiogel rhwng y ddalfa a'r gymuned. Yn ogystal, mae datblygu cronfa ddata SPOC ar y we yn cael ei harchwilio i hwyluso rhannu gwybodaeth yn well rhwng darparwyr triniaethau mewn carchardai a'r gymuned.

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd GIG Lloegr eu Cynllun Hirdymor, a oedd yn amlinellu ymrwymiadau i ehangu Gofynion Triniaethau Gwasanaeth Cymunedol a chyflwyno gwasanaeth 'RECONNECT' i wella parhad gofal i garcharorion ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa[16]. Rydym yn croesawu'r ffocws hwn ar adeiladu'r broses adfer a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod carcharorion â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn gweld manteision y buddsoddiad hwn.

Rydym yn gweithio i helpu i uno unigolion a sefydliadau gwahanol i leihau'r risg, cyn belled â phosibl, y bydd pobl yn llithro nôl i gamddefnyddio cyffuriau ar ôl gweithio'n galed i fynd i'r afael â dibyniaeth tra'n y carchar. Elfen allweddol sy'n cyfrannu at hyn yw sicrhau bod gan bawb sy'n

---

[14] Iechyd Cyhoeddus Lloegr, (2018), Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, https://fingertips.phe.org.uk/profile/public-health-outcomes-framework/data#page/0/gid/1000042/pat/6/par/E12000004/ati/102/are/E06000015, dangosydd 2.16

[15] Iechyd Cyhoeddus Lloegr, (2018), Parhau â'r gofal i garcharorion sydd angen triniaeth camddefnyddio sylweddau, https://www.gov.uk/government/publications/continuity-of-care-for-prisoners-who-need-substance-misuse-treatment

[16] GIG Lloegr, (2019), Cynllun Hirdymor y GIG, https://www.longtermplan.nhs.uk/online-version/appendix/health-and-the-justice-system/

gadael carchar rywle sefydlog a diogel i fyw. Ers mis Hydref 2018, mae gan garchardai a darparwyr prawf ‘ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio’ unrhyw un sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref i'r Awdurdod Lleol. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi lansio menter gwerth £100 miliwn i leihau, ac yn y pen draw dileu, cysgu allan ar draws Lloegr. Drwy'r gwaith hwn, byddwn yn buddsoddi £6.4 miliwn mewn cynllun peilot i gefnogi carcharorion a ryddhawyd o Garchardai Ei Mawrhydi ym Mryste, Leeds a Pentonville i sicrhau llety sefydlog a fydd yn hyrwyddo eu proses adsefydlu. Bydd y cynlluniau peilot yn rhoi cynnig ar y dull partneriaeth newydd gyda charchardai, darparwyr prawf ac awdurdodau lleol yn cydweithio i gynllunio, diogelu a chynnal llety i garcharorion adeg eu rhyddhau. Byddwn yn defnyddio'r gwersi o'r cynlluniau peilot i lywio darpariaeth llety i gyn-droseddwyr yn y dyfodol.

## Ein Amcanion

Lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn y ddalfa.

Cynyddu cyfran y carcharorion hynny sy'n cwblhau triniaeth nad ydynt yn dychwelyd o fewn chwe mis, erbyn Rhagfyr 2020.

Cynyddu cyfran y carcharorion sydd ag anghenion triniaeth camddefnyddio sylweddau sy'n ymgysylltu'n llwyddiannus â thriniaeth yn y gymuned o fewn 21 diwrnod o'u rhyddhau o'r carchar, erbyn mis Rhagfyr 2020.

## Byddwn yn

| | |
|---|---|
| **Pobl** | • Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Lloegr i hyrwyddo eu pecyn cymorth archwilio a'u canllawiau ar barhad gofal ac annog carchardai i ystyried eu trefniadau presennol a sut gellid gwella'r cysylltiad â darparwyr gofal iechyd cymunedol a meddygon teulu. |
| **Gweithdrefnau** | • Ailsefydlu Pwyntiau Cyswllt Unigol ar gyfer gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau yn y ddalfa yn Lloegr erbyn mis Rhagfyr 2019. |
| **Corfforol** | • Sicrhau bod meddyginiaeth presgripsiwn a meddyginiaeth fferyllol yn cael eu dosbarthu yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio coffrau meddyginiaeth lle bo angen. |
| **Poblogaeth** | • Cyhoeddi ystadegau ar nifer y marwolaethau yn y ddalfa sy'n gysylltiedig â chyffuriau erbyn mis Gorffennaf 2019. |
| **Partneriaethau** | • Parhau i weithio'n agos gyda GIG Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Llywodraeth Cymru, cyrff iechyd datganoledig, a phartneriaid eraill i sicrhau cynnig gofal iechyd a thriniaeth effeithiol, cydgysylltiedig i garcharorion. |

## Casgliadau a chamau nesaf

Mae'r strategaeth hon yn gosod y cyfeiriad i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau mewn carchardai. Bydd cydweithio i gyfyngu ar gyflenwad, lleihau'r galw ac adeiladu adferiad yn sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, positif i ddiogelwch ein carchardai, staff carchardai a charcharorion, yn ogystal â helpu unigolion i newid eu bywydau.

Rydym eisoes wedi dechrau gweithredu'r strategaeth hon a byddwn yn trafod y strategaeth gyda phartneriaid allweddol o'r gwasanaeth carchardai, gorfodi'r gyfraith ac iechyd i sicrhau dull cyson o weithredu. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ffyrdd o gyfathrebu ar draws y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a phartneriaid allweddol fel bod arfer da a dysgu pellach yn cael eu rhannu a'u mabwysiadu lle bo hynny'n fuddiol. Mae'r canllawiau a luniwyd ochr yn ochr â'r strategaeth hon yn darparu gwybodaeth glir a chyson i lywodraethwyr a staff carchardai i gefnogi eu hymdrechion i fynd i'r afael â chyffuriau yn eu sefydliadau. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r canllawiau hyn gyda gwybodaeth ac enghreifftiau newydd wrth i'r rhain gael eu datblygu i sicrhau bod staff gweithredol yn gallu cael gafael ar y cyngor gorau yn hawdd.

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

## Mae fersiynau fformat gwahanol o'r adroddiad hwn ar gael ar gais gan Drug.Strategy@hmps.gsi.gov.uk